LLYTHYR BUGEILIOL YN YSTOD TYMOR Y PASG ODDI WRTH ESGOB GREGORY
22 Ebrill 2020

"Os na welaf ôl yr hoelion yn ei ddwylo, a rhoi fy mys yn ôl yr hoelion, a'm llaw yn ei ystlys, ni chredaf fi byth." *(Ioan 20.25)*

Un o'r pethau sy'n fy mherswadio y gellir dibynnu ar hanes yr Efengyl yw bod yr apostolion yn cael eu cyfleu mewn ffordd mor onest. Maen nhw'n tueddu i gael eu dangos fel rhai nad ydyn nhw'n gallu gwneud eu gwaith yn dda iawn. Os mai rhain yw hufen holl ddisgyblion Iesu, maen nhw'n aml yn ei gamddeall, yn yn gwneud camgymeriadau, yn cael syniadau crand ac yn colli'r plot. Ddim yn annhebyg i arweinyddiaeth yr Eglwys heddiw, yn ôl rhai.

Ond, dyna'r pwynt, nid yw ffydd yn golygu bod yn fwy na dynol, mae'n golygu bod pobl gyffredin yn gwneud eu gorau i gerdded gyda Duw trwy eu bywydau. Mae'r dyfyniad yn un, rwy'n siŵr, y byddwch yn ei adnabod – yn enwedig os ydych yn dilyn y llithlyfr, gan mai hwn oedd darlleniad yr Efengyl y Sul diwethaf, ble roedd Thomas – Thomas yr amheuwr – yn dangos nad oedd yn credu yn yr Atgyfodiad. Mae pob un ohonom yn gwybod beth ddigwyddodd iddo ar ôl hynny.

Nid pob un ohonom sy'n cael cymaint o brofiad o'r Arglwydd Atgyfodedig â Thomas, ond mae caniatâd i ni fod â ffydd fel un Thomas, bod ag amheuaeth. Os ydych wedi bod yn dilyn y llythyrau hyn, byddwch yn gwybod fy mod wrth fy modd gyda Llyfr y Salmau. Mae'n ymddangos i mi eu bod yn cyfleu pob profiad dynol - llawenydd, rhyfeddod, ofn, dicter, chwerwder, sinigiaeth. Ond yr hyn sy'n gyffredin iddyn nhw i gyd yw un nodwedd mawr, y parodrwydd i fod yn onest gyda Duw a bod yn barod i siarad, i weddïo, yn syth o'r galon.

Dylai'n gweddi ni fod fel hyn, yn onest gyda Duw – yn siarad o'r galon ac i'r galon, dyma glywodd John Henry Newman, y diwinydd mawr a drodd at yr Eglwys Gatholig ac a ddewisodd arwyddair, er yn Lladin "Cor ad Cor loquitur".

Yn y cyfnod hwn o goronafeirws, rydym yn mynd trwy gyfnodau o amheuaeth a dryswch. Pam fod Duw da yn caniatáu y fath dioddefaint? Oes gen i ddigon o ffydd i'm cynnal i trwy hyn? Oes gan neges y Pasg unrhyw nerth i gyfleu realiti fy mywyd i ar hyn o bryd? Mae pob un ohonom yn Thomas ar adegau. Rhaid i mi fod yn onest fy hunan, does gen i ddim eglurhad pam fod Duw yn caniatáu i feirysau beri cymaint o ddinistr yn y byd sydd ohoni. Mae pob un y tu ôl i'r ystadegau'n berson go iawn yn cael ei garu a'i golli – ei fywyd heb ei fyw i'r eithaf cyn cael ei gipio i ffwrdd. Ond er gwaethaf hyn oll, mae calon Duw yn siarad gyda'm calon i: "Mae ots gen i", mae'n dweud, "bydd yn asiant o'm cariad" "Rwyf gyda thi, gorffwysa dy galon anesmwyth arna i."

Mewn un man mae Paul yn dweud fod yn rhaid i weddi, weithiau, fod bron iawn "ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau" (Rhufeiniaid 8.26) oherwydd weithiau, bod ein ffydd ni wedi'i gleisio cymaint fel nad yw'n gallu siarad. A gaf i eich annog yn eich gweddiau'r wythnos hon? A gaf i eich annog i weddïo gyda gonestrwydd Thomas a'r salmydd, i siarad o'ch calon chi wrth galon Iesu?

Er na allaf ganfod Duw yn y feirws, rwy'n gweld ei wyneb yn yr ymateb rhyfeddol iddo, gwydnwch a dewrder y gofalwyr yr ydym yn curo'n dwylo ac yn canu'n clychau iddyn nhw ar nos Iau; yr ystyriaeth ofalus gan y ffyddloniaid – ac eraill – o anghenion y rhai bregus yn ein cymunedau; ymroddiad y clerigwyr i barhau mewn gweddi a chyfathrebu eu gweddi er mwyn i eraill ymuno â nhw. Mewn un ffordd, gweithredoedd syml, dynol yw'r rhain, ond i mi mae yna wawr o gwmpas eu hymylon sy'n rhoi cipolwg o Gariad tragwyddol Duw.

Pob bendith fo gyda chi,

+Gregory Cameron